Bl7: Gwers 8: Cestyll

Nod y Wers: Adeiladwyd cestyll fel symbol i ddychryn a bygwth pobl. Ydych chi'n cytuno gyda'r safbwynt yma?

Tasg 1.
Ysgrifennwch gwestiynau i'r atebion isod:

- Y Dref Ffiwdal: .....
- Brenin:.....
- Y Werin: .....
- Wiliam: .....
- 1066: .....

Tasg 2. Sgiliau Meddwl – safbwyntiau gwahanol.
Darllennwch y ffynonellau isod sy'n rhoi safbwyntiau gwahanol am bwrpas cestyll yn ystod yr Oesoedd Canol. Mewn 2 liw gwahanol, uwcholeuwch gwybodaeth postif a negyddol am gestyll.

Ffynhonnell 1

Adeiladwyd cestyll i reoli'r bobl lleol yn gadarn. Roedd gan Wiliam enw drwg oherwydd y ffordd roedd yn rheoli Normandi yng ngogledd Ffrainc. Roedd pobl yn ei ofni, lladdwyd cannoedd o'i wrthwynebwyr ac roedd Wiliam yn ymfalchio yn y dull yma o reoli. Roedd yn benderfynol i wneud yn union yr un peth yng Nghymru a Lloegr. Roedd y cestyll yn symbol o'i bwer dros y bobl.

Darn allan o lyfr 'Y Normaniaid yng Nghymru' gan Bill Jones, Hanesydd. Ysgrifennwyd yn 2015.

Ffynhonnell 2

Dydw i ddim eisiau dychryn neb ac fy nod yw i helpu'r bobl lleol wrth sicrhau trefn ar eu bywydau. Mae adeiladu cestyll yn fford effeithiol o reoli ardaloedd o gwmpas y wlad. Hefyd, mae cestyll a'r ardaloedd o'u hamglych yn lefydd lle gall pobl byw, gweithio a bod yn ddiogel. Croesawu nid dychryn pobl dwi'n ei wneud!

Cofnod o sgwrs gyda Wiliam o Normandi yn 1095.

Ffynhonnell 3

Mae cestyll yn lefydd braf iawn. Dwi'n byw ac yn gweithio yma ac mae'n ddiogel iawn – enwedig o fewn waliau'r beili. Mae gennyf digon o dir ffarmio i dyfu cnydau a llawer o werin bobl yn gweithio ar y caeau. Dwi'n gwneud llawer o arian wrth fyw yn yr ardal yma.

Marchog yn siarad am ei brofiad o fyw mewn castell mwnt a beili yn 1098.

Tasg
Wrth edrych ar y lliwiau, pa ffynhonnell/ffynonellau sydd **o blaid** y ddadl bod cestyll yn symbol i ddychryn pobl a pha rhai sydd **yn erbyn** y ddadl? Pam?

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg

Yn eich barn chi, pa ffynhonnell/ffynonellau **sy'n ddibynadwy** (reliable) wrth ateb y ddadl yr adeiladwyd cestyll fel symbol i fygwth a ddychryn pobl? Pam?

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg

Yn eich barn chi, pa ffynhonnell/ffynonellau **sydd ddim yn** ddibynadwy (unreliable) wrth ateb y ddadl yr adeiladwyd cestyll fel symbol i fygwth a ddychryn pobl? Pam?

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg

Yn eich barn chi, pam adeiladwyd cestyll? Atebwch mewn brawddeg llawn.

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Geirfa

Gwrthwynebwyr	*Opposition*
Ymfalchio	*Proud*
Penderfynol	*Determined*
Dychryn	*Scare*
Effeithiol	*Effective*
Croesawu	*Welcoming*
Diogel	*Safe*
Cnydau	*Crops*
Werin bobl	*Common people*
Marchog	*Knight*
Adeiladwyd	*Built*
Bygwth	*Threat*